# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Hydref, 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Cyswllt:** | **01286 679072** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**
Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**
Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar yr 13 o Fedi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

1.3 Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a'r perfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**CEFNOGAETH GORFFORAETHOL**

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella)**

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 9 o'r blaenoriaethau gwella sy'n ymddangos yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer eleni. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

## 2.1 CADW'R BUDD YN LLEOL

2.1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.

2.1.2. Dros y flwyddyn a hanner diwethaf mae llawer o waith wedi ei wneud i uchafu buddion cymdeithasol wrth gaffael. Mae gwaith y cynllun treialu asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol yn dod i ddiweddglo, gyda'r trydydd a'r tendr peilot olaf yn cael ei werthuso ar hyn o bryd. Mae adroddiad wedi ei drafftio yn argymell ffordd ymlaen gyda'r bwriad i ennill sêl bendith dros yr Hydref.

2.1.3 Mae gwaith wedi ei wneud i gefnogi busnesau lleol i ymateb i ofynion y Ddeddf Llesiant a mesurau hinsawdd mewn tendrau yn ogystal ag asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r Cytundeb Gofal bellach wedi ei ddyfarnu gyda swyddogion yn cydweithio gyda darparwyr i sefydlu'r model newydd o weithio a rhoi sylw i faterion cyflogaeth.

## 2.2 MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH

2.2.1 Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol. Mae'r grŵp prosiect wedi ymateb trwy gyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched y Cyngor. Daeth y gyfres gyntaf o'r Rhaglen Ddatblygol i ben ar y 4ydd o Orffennaf. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi bod yn galonogol iawn a'r ail gyfres yn cael ei chynnig yn ystod misoedd yr Hydref.

2.2.2 O'r cychwyn cyntaf mae cryn bwyslais wedi ei roi ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dynion sydd yn rheolwyr ac arweinyddion o fewn y Cyngor. Cynhaliwyd digwyddiad i ddynion y sefydliad ar yr 28ain o Fehefin. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn ble roedd cyfle i ddynion gael clywed a chwestiynu arweinwyr benywaidd a gwrywaidd oedd yn gallu rhannu profiadau a thynnu sylw at rwystrau a wynebir gan ferched yn y gweithle a datrysiadau posib i'r rhwystrau hynny.

2.2.3 Mae'r "sgyrsiau dros baned" ar gyfer Aelodau Etholedig a swyddogion benywaidd yn y Cyngor yn parhau gyda hwyluswyr a siaradwyr mewnol ac allanol yn cael eu trefnu ar gyfer y cyfnod nesaf.

2.2.4 Wrth symud ymlaen i gamau nesaf y prosiect bydd sylw'n cael ei roi i ddatblygu'r defnydd o ddata ac ystadegau ar gyfer mesur llwyddiant y prosiect.

## 2.3 SICRHAU TEGWCH I BAWB

2.3.1 Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor.

2.3.2 Mae’r gwaith o ddiweddaru’r e-fodiwl cydraddoldeb, sy’n un o’r e-fodiwlau mandadol, wedi ei gwblhau gyda 403 o unigolion wedi ei gwblhau rhwng Ebrill ac Awst 2022. Bydd sylw’n cael ei roi i ddatblygu sesiynau ar-lein arbenigol ar gyfer gweithwyr rheng flaen penodol. Yn dilyn yr etholiad darparwyd hyfforddiant cydraddoldeb i Aelodau a bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnig yn yr Hydref.

2.3.3 Mae’r gwaith o ddadansoddi’r ymgysylltiad cydraddoldeb cyhoeddus wedi ei gwblhau gyda'r mwyafrif llethol o’r ymatebwyr heb wynebu unrhyw rwystrau oherwydd eu nodweddion gwarchodedig wrth ymwneud â’r Cyngor. Mae’r gweddill yn codi nifer o faterion sydd angen eu cyfarch ac mae’r gwaith hynny’n mynd rhagddo gyda Gwasanaethau perthnasol.

2.3.4 Bu rhywfaint o oedi pellach yn y gwaith o baratoi Asesiad Effaith Cydraddoldeb electroneg newydd ond yn ffyddiog y bydd yn barod i'w ddefnyddio yn yr wythnosau nesaf. Mae templed interim yn cael ei defnyddio yn y cyfamser.

2.3.5 Mae penderfyniad wedi ei wneud i fynd am achrediad “Inclusive Employers”. Cyflwynir y cais erbyn 16eg o Ragfyr a disgwylir derbyn canlyniad yr asesiad ac adroddiad adborth yn ystod mis Mawrth 2023.

**2.4 ENWAU LLEFYDD CYNHENID GYMRAEG**

2.4.1 Fel y gwyddoch, mae pryder fod enwau llefydd cynhenid Cymraeg yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o’r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg. Mae’r prosiect yn blaenoriaethu’r meysydd i gael sylw a hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud o safbwynt adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd, enwau llefydd ac ati.

2.4.2 Mae Rhaglen waith cam 2 (blwyddyn 2) wedi ei llunio ac yn cael ei gweithredu. Fodd bynnag, mae gwyro wedi bod oddi wrth y rhaglen waith yn ddiweddar gan fod ymchwil wedi ei gynnal ar gais y Tîm Arweinyddiaeth i edrych ar newidiadau posib i enwau strydoedd y sir.

2.4.3 Mae cymalau newydd wedi eu hychwanegu i Bolisi iaith y Cyngor, fel rhan o waith adolygu ehangach, i adlewyrchu arweiniad y Tîm Arweinyddiaeth ac awydd ac ymrwymiad y Cyngor i arddel enw Cymraeg y Cyngor ac enwau lleoedd Cymraeg yn ehangach lle bynnag y bo’n bosib. Cyflwynir y Polisi Iaith i’r Cabinet a’r Cyngor Llawn maes o law.

2.4.4 Datblygwyd a chynhaliwyd gweithdy ar gyfer staff (yn benodol Rheolaeth adeiladu, tîm iaith) ar roi cyngor ar enwi tai er mwyn lledaenu arbenigedd yn y maes.

2.4.5 Yn sgil ymateb cyhoeddus i newid enwau ar fapiau mae trafodaethau wedi ei cynnal gyda swyddogion yr Arolwg Ordnans i drafod rhwystrau, i ddeall eu prosesau cyfredol ac i sefydlu perthynas weithio. Bydd rhaglen weithredu yn cael ei chreu er mwyn

dylanwadu ar enwau sy'n ymddangos ar fapiau. Cyfarfodydd hefyd yn cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i drafod cyfleoedd cydweithio.

## 2.5 HYBU DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN GWASANAETHAU'R CYNGOR

2.5.1 Mae'r Cyngor wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

2.5.2 Mae hyfforddiant iaith yn parhau gyda nifer o staff yn manteisio ar gyfleoedd mewnol ynghyd ag allanol. Mae gwaith o hyrwyddo cyrsiau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith yn digwydd yn barhaus ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod cyrsiau addas i staff rheng flaen a threfnu cyrsiau comisiwn.

2.5.3 Mae gwaith wedi cychwyn ar gasglu asesiadau gan reolwyr gwasanaeth ar gyfer y staff sydd heb asesiad iaith yn yr adran Economi a Chymuned (y mwyafrif yn staff achlysurol a thymhorol). Mae blaenoriaeth wedi ei roi i gysylltu â holl wasanaethau rheng flaen ar draws y Cyngor ynghylch hyfforddiant iaith a bydd hynny yn digwydd cyn gynted â phosib.

Mae cydnabyddiaeth fod y gwaith yma wedi gwreiddio ac yn rhan o waith dydd i ddydd bellach ac mae trefniadau ar waith i gau'r prosiect gyda'r adrannau sy'n weddill erbyn Rhagfyr 2022.

## 2.6 Y GYMRAEG A'R GWASANAETHAU CYHOEDDUS

2.6.1 Pwrpas y prosiect yma gan is-grŵp y Gymraeg (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) yw annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Comisiynwyd cwmni i wneud astudiaeth o ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn 12 derbynfa draddodiadol yng Ngwynedd a Môn ac i ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Mae ffocws y prosiect ar y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac nid ar argaeledd gwasanaethau lle ddylai'r argaeledd hwnnw fod yn ddiofyn**.**

2.6.2 Mae Cwmni Iaith Cyf wedi eu penodi a gwaith arsylwi wedi ei gynnal yn y derbynfeydd ym mis Mai a Mehefin. Mae grwpiau ffocws gyda'r staff sydd wedi cymryd rhan wedi eu cynnal gan Cwmni Iaith yn ystod mis Gorffennaf. Argymhellion wedi eu creu er mwyn ceisio annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd a phecyn adnoddau a chanllawiau i staff wedi ei ddatblygu, anogir staff sefydliadau cyhoeddus i wneud defnydd o'r adnoddau newydd. Bydd canfyddiadau'r arsylwi, argymhellion a phecyn adnoddau a chanllawiau datblygu yn cael eu cyflwyno i aelodau Is-grŵp y Gymraeg yn eu cyfarfod nesaf.

2.6.3 Rhagwelir y bydd gwaith y prosiect penodol hwn wedi ei orffen erbyn Rhagfyr 2022.

## 2.7 SICRHAU FOD RHEOLWYR YN ARDDEL EU RÔL IECHYD A DIOGELWCH YN EFFEITHIOL

2.7.1 Mae'r prosiect yma wedi'i adnabod fel blaenoriaeth gorfforaethol am y tro cyntaf yng Nghynllun y Cyngor am eleni.

2.7.2 Mae'r maes Iechyd Diogelwch a Llesiant o dan y chwydd wydr mewn ffordd na fu erioed o'r blaen, a hynny am sawl rheswm. Yn amlwg, daeth cyfnod y pandemig a'n diogelwch ni oll i flaen meddwl pawb, ac mae cadw pawb yn ddiogel yn un o'r disgwyliadau mwyaf sylfaenol sydd ar y Cyngor gan bobl Gwynedd.

2.7.3 Mae Swyddogion wedi cydweithio gyda Swyddog Prosiectau Systemau Adnoddau Dynol i fapio prosesau cyfeirio unigolion at yr Uned Iechyd Galwedigaethol a'r system adrodd ar ddamwain i'r Uned Iechyd a Diogelwch allan. Mae hwn at bwrpas bod yn glir o'n anghenion fel Cyngor i fynd allan i gaffael systemau allanol pwrpasol.

2.7.4 Yn dilyn adolygiad llawn o ofynion hyfforddi, mae hyfforddiant wyneb i wyneb IOSH i Reolwyr yn parhau a bydd yn adfer o'r 7.9.2 ac mae nifer o gyrsiau wedi eu rhaglennu cyn y Nadolig mewn ymgais i ddal i fyny ar sefyllfa sydd wedi llithro ers dwy flynedd. Mae yna nifer o gyrsiau atgoffa hefyd wedi eu rhaglennu er mwyn sicrhau fod hyfforddiant pawb yn gyfredol.

2.7.5 Bydd sesiwn hyfforddi ar 'Arwain yn Ddiogel' yn cael ei drefnu cyn y Nadolig i Dîm Rheoli'r Cyngor. Mae hyfforddiant Aelodau Etholedig wedi ei adolygu i gynnwys elfen ar eu diogelwch personol nhw fel aelodau.

2.7.6 Mae Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol newydd wedi ei phenodi i'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant a dwy nyrs wedi cofrestru ar gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr i allu cyflwyno cwrs rheoli iechyd meddwl I-act. Y gobaith yw cyrraedd sefyllfa ble fo pob Rheolwr wedi mynychu cwrs ar sut i reoli a chefnogi iechyd meddwl eu staff.

2.7.7 Er mwyn cwblhau'r Polisi Iechyd a Diogelwch sydd wedi bod o dan adolygiad, mae sgwrs ynglŷn â strwythurau llywodraethu iechyd a diogelwch yn fewnol wedi ei chynnal gyda'r Prif Weithredwr, a gwaith pellach angen digwydd ar gylchoedd gorchwyl gwahanol grwpiau mewnol oedd yn bodoli cyn COVID i'w cyflwyno iddo, er mwyn sicrhau fod monitro digonol ar y lefel briodol.

## 2.8 CYNLLUNIO'R GWEITHLU

2.8.1 Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol yn flaenoriaeth sydd wedi amlygu'i hun yn fwy nag erioed o'r blaen dros y cyfnod ac mae angen ymateb i'r heriau staffio sy'n wynebu nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae rhaglen waith a cherrig milltir penodol wedi eu llunio i adnabod bylchau tymor byr, tymor canol a'r hir dymor.

2.8.2 Mae gwaith wedi dechrau ar greu cynnwys ar gyfer gwefan Gyrfaoedd pwrpasol. Y bwriad yw y bydd y wefan yn cael ei defnyddio fel y prif borth ar gyfer denu ymgeiswyr

i swyddi. Hefyd, mae bwriad i ymestyn a threialu ymhellach y defnydd o ffurflenni cais amgen, mwy syml, mewn rhai meysydd gwaith penodol.

2.8.3 Wrth symud ymlaen bydd pob cyfle yn cael ei gymryd i geisio gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o'r staff sydd gennym ar hyn o bryd, trwy amlygu cyfleoedd am oriau gwaith ychwanegol sydd ar gael i staff rhan amser, mewn meysydd gwahanol, os ydyn nhw yn dymuno cynyddu eu horiau.

2.8.4 Cyflwynir trefn ffurfiol o gynnal sgyrsiau / cyfweliadau gadael â staff er mwyn deall yn well pam fod unigolion yn gadael cyflogaeth y Cyngor. Mae'r dogfennau perthnasol wedi eu cynhyrchu eisoes, ac wedi eu defnyddio fel treial o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Bydd defnyddio trefn fel hyn yn ein galluogi i ddeall pam fod pobl yn gadael cyflogaeth y Cyngor.

2.8.5 Mae'r Cynllun Prentisiaethau a'r cynllun graddedigion yn parhau i wneud cynnydd da ac yn cael cydnabyddiaeth ar draws y Cyngor a thu hwnt. Yn ddiweddar croesawyd 10 prentis a 4 o hyfforddai proffesiynol newydd i'r Cyngor o fewn meysydd technoleg gwybodaeth, gofal plant, peirianneg, cyllid, y gyfraith, rheoli digwyddiadau a chydraddoldeb ac amrywiaeth. O fis Medi ymlaen bydd 20 o brentisiaid a 14 o hyfforddeion proffesiynol ar ein cynlluniau. Bydd ymgyrch o adnabod cyfleoedd a recriwtio ar gyfer swyddi prentisiaid a hyfforddeion proffesiynol ar gyfer 2023 yn cychwyn o fis Hydref ymlaen.

2.8.6 Bydd adroddiad yn cael ei lunio ar y Cynllun Profiad Gwaith newydd ar gyfer 2023.

## 2.9 RHOI FFORDD GWYNEDD AR WAITH

2.9.1 Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen.

2.9.2 Mae pob Adran wedi cynnal hunanasesiad o'u cynnydd yng nghyswllt diwylliant Ffordd Gwynedd yn ystod chwarter olaf 2021/22. Mae'r ymatebion wedi eu dadansoddi a'i cymeradwyo fel sail i Gynllun Tair Blynedd newydd ar gyfer datblygu'r sefydliad a'r diwylliant yn y Cyngor. Bydd Cynllun Tair Blynedd a Rhaglen Waith Ffordd Gwynedd ar gyfer 2022-25 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei gymeradwyo yn ystod Hydref 2022.

2.9.3 Mae Ymgynghorwyr Ffordd Gwynedd ynghyd a'r Tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn parhau i ddarparu cyngor a hyfforddiant i bwrpas cynnal adolygiadau gwasanaeth ar gyfer nifer o unedau gwasanaeth/adrannau. Yn ystod yr Hydref / Tachwedd cynhelir dwy sesiwn codi ymwybyddiaeth am 'Ffordd Gwynedd' gydag Aelodau Etholedig.

2.9.4 Mae'r trefniadau adrodd a herio perfformiad newydd wedi'u cyflwyno gyda'r cyfarfodydd herio cyntaf o dan y drefn newydd wedi'u cynnal yn ystod Mehefin/Gorffennaf tra bo cyfarfodydd ar gyfer gweddill y flwyddyn wedi'u hamserlennu. Bydd cynrychiolaeth o 'fysg aelodau'r Pwyllgor Craffu, ynghyd a'r Aelod Cabinet cysgodol, yn ymuno efo'r Aelod Cabinet mewn dau o'r pump cyfarfod herio

perfformiad yn ystod y flwyddyn. Adolygir llwyddiant y trefniadau herio perfformiad newydd yn dilyn cynnal cylch blwyddyn.

**2.9.5** Mae Rhwydwaith Rheolwyr ar ei newydd wedd wedi'i ail-lansio gyda threfniadau yn eu lle i gynnal y gyfres nesaf o gyfarfodydd wyneb i wyneb yn ystod yr Hydref eleni.

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Nodir isod trosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny na gyfeirir atynt yma.

### 3.2 **Adnoddau Dynol**

3.2.1 Mae lefelau absenoldeb wedi dychwelyd i'r lefelau y gwelwyd cyn cyfnod Covid. Mae'r nifer o achosion Covid yn rhannol gyfrifol am y lefelau presennol. Mae sylw yn cael ei roi i fonitro'r lefelau absenoldeb gyda Grŵp Absenoldebau wedi ei ffurfio i fonitro'r sefyllfa. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi sylw penodol i ddarganfod rhesymau dros absenoldebau a chynnig cefnogaeth i reolwyr o fewn amrywiol adrannau a gwasanaethau o fewn y Cyngor.


### 3.3 **Cyswllt Cwsmer a Chofrestru**

3.3.1 Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau anodd a swyddogion o dan bwysau yn sgîl swyddi gwag.

3.3.2 Dros y misoedd diwethaf mae camau wedi eu cymryd i gryfhau capasiti'r gwasanaeth ac erbyn hyn mae'r lefelau staffio yn cyfateb i'r hyn sydd wedi ei adnabod ar gyfer strwythur y gwasanaeth. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill ar gyfer recriwtio prentisiaid a hysbysebu swyddi achlysurol o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, rhaid tynnu sylw fod llawer o waith i'w wneud o ran hyfforddi staff newydd a bydd rhai misoedd eto cyn bydd gwelliant yn y perfformiad.

3.3.3 Mae nifer galwadau a gollwyd yn is dros y chwarter diwethaf a hynny yn dilyn penodi 2 aelod o staff newydd yn delio gyda galwadau ffôn yn bennaf sydd yn dangos fod y recriwtio diweddar yn dechrau gwneud gwahaniaeth. Mae gwaith wedi cychwyn gyda'r Gwasanaeth TG er mwyn adnabod galwadau o fethiant fel bo modd cydweithio gyda gwasanaethau i wella'r safon o wasanaeth i gwsmeriaid.

*(Nifer galwadau a gollwyd yn fisol)*




3.3.4 Fel y bydd y sefyllfa staffio yn sefydlogi y gobaith yw cynyddu'r defnydd o '*web chat'* ac adnabod pa agwedd arall o hunan wasanaeth fyddai o fudd i'r cwsmer er mwyn cynyddu'r defnydd o '*web chat'*.

3.4 **Democratiaeth ac Iaith**


3.4.1 Mae'r daith o sefydlu'r fenter iaith yn annibynnol yn y gymuned yn cynyddu momentwm gyda'r Grŵp Arweiniol wedi ei ffurfio i arwain ar y gwaith. Y bwriad yw ei lansio ar ein newydd wedd yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023.

3.4.2 Cyn cyfnod yr haf llwyddodd Hunaniaith i sicrhau grant o £12,000 gan Gronfa Llywodraeth Cymru. Drwy dderbyn yr arian grant bu modd trefnu a chynnal nifer o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc, oedran 11-25, ar draws y sir fel rhan o 'Haf o Hwyl'. Bu'r gweithgareddau yn hynod o boblogaidd ac mae cynlluniau pellach ar y gweill i gynnal digwyddiadau i ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yng Ngwynedd.

3.5 **Ymchwil a Gwybodaeth**

3.5.1 Mae digwyddiadau o wybodaeth bersonol yn cael ei ddatgelu mewn camgymeriad, neu trwy amryfusedd, yn parhau i ddigwydd mewn mannau o fewn y Cyngor gyda 5 ddigwyddiad ym mis Gorffennaf a 4 arall yn ystod Awst. Mae cyfran (tua'u hanner) yn parhau i fod yn e-byst anfonwyd i'r cyfeiriad anghywir. Bydd y Panel Llywodraethu gwybodaeth yn ystyried papur gan Grŵp Tasg a Gorffen sydd wedi bod yn edrych ar ddiogelwch e-byst a'r posibiliadau technegol i wneud camgymeriadau'n llai tebygol o ddigwydd. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd ar edrych ar y trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth electronig a lefel yr adnodd sydd gan y Cyngor mewn maes sy'n datblygu'n gyflym iawn.

*(Nifer digwyddiadau gwybodaeth)*



3.5.2 Mae’r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth hefyd wedi dechrau monitro ac adrodd yn fisol ar y canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos bod y patrwm yn amrywio tipyn fesul mis, bydd rhaid cadw golwg ar y sefyllfa a gweld sut batrwm fydd yn datblygu dros gyfnod o amser.

3.6 **Iechyd, Diogelwch a Llesiant**

3.6.1 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dilyn cyfarwyddyd cenedlaethol gan AGID *(Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)*, ataliwyd y gwaith statudol gwyliadwriaeth iechyd dros dro. Erbyn hyn mae cyfarwyddyd wedi ei dderbyn i ail gydio yng ngwyliadwriaeth iechyd ac felly mae’r gwaith yn derbyn blaenoriaeth uchel gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol oherwydd yr angen i ddal fyny ers Covid. O ganlyniad i hyn mae amser aros am apwyntiad gyda’r ymgynghorwyr iechyd galwedigaethol wedi cynyddu i 6 wythnos. Fodd bynnag, mae nyrs newydd wedi ei phenodi ac wedi ymuno a’r tîm yn ddiweddar ac yn gallu helpu a rhai elfennau o’r llwyth gwaith ac yn aros am hyfforddiant arbenigol er mwyn cyfrannu at y gwaith gwyliadwriaeth iechyd. Teimlaf y bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sicrhau na fydd yr amser aros yn mynd yn broblem tymor hir.

**4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION**

4.1.1 Mae gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol darged arbedion o £80,000 i’w wireddu. Mae cynlluniau i wireddu’r arbediad yma ar y trywydd cywir a bydd swm yr arbediad wedi ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

**PRIODOLDEB**

**Cyfrannu at y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**

Mae’r Swyddog Monitro yn gweithredu yn ròl Swyddog Monitro y Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd (“CBC) , sydd yn cynnwys swyddogaethau cyffelyb i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae’r Offerynnau Statudol sefydlu a gweinyddu y CBC wedi dod i rym dros gyfnod o amser ac mae ambell elfen yn dal ar y gweill. Mae hyn wedi golygu darparu cefnogaeth arbenigol ar faterion cyfansoddiadol a threfniadaeth y CBC. Yn ogystal a darparu y gefnogaeth yma paratowyd dogfennau cyfansoddiadol cychwynnol ynghyd ac mae’r gwaith o ddatblygu y Cyfansoddiad yn parhau.

**Gweithio gyda’r Pwyllgor Safonau i ymdrin a’r adolygiad o’r fframwaith foesegol yn deillio o Adroddiad Mr Richard Penn**

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Richard Penn disgwylir am ymateb y Lywodraeth i'r argymhellion sydd yn cwmpasu materion megis trefniadau datrys lleol, hyfforddiant a chyd berthynas y gyfundrefn a chynghorau tref a chymuned. Yn y cyfamser mae'r Pwyllgor Safonau wedi cychwyn ar waith yn ymchwilio i ffurf y gefnogaeth fyddai Cynghorau Tref a Chymuned yn ddymuno weld. Fodd bynnag mae pa gamau mae'r Llywodraeth am gymryd mewn ymateb yn greiddiol i sefydlu sut i weithredu ymhellach a cynnal trafodaeth am unrhyw ofynion adnoddau all godi.

**Cynnal trefniadau anwytho a hyfforddi aelodau y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad yn sgil yr etholiadau lleol.**

Cynhaliwyd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fel rhan o'r sesiynau anwytho a llwyddwyd i ddarparu hyfforddiant i 65 o aelodau .Mae'r gwaith yma yn parhau gyda cwrs manylach wedi yn cael ei ddarparu ar 2 achlysur yn barod Bwriedir cynnal sesiynau pellach er cyfarch gofyn ychwanegol. Mae cwrs wedi ei baratoi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned y gellir ei ddarparu yn rhithiol a bwriedir cychwyn rhaglen o sesiynau pan fydd adnoddau yn caniatáu.

**ETHOLIADAU**

**Cefnogi y Swyddog Canlyniadau i ddarparu Etholiadau Lleol Mai 2022**

Cynhaliwyd yr Etholiadau Lleol ym Mai 2022 a chafwyd adborth cadarnhaol gan y Comisiwn Etholiadau ynglŷn a'r trefniadau eleni . Bydd adolygiad o'r trefniadau a chynllun gwaith ar gyfer datblygu a gwella i'r dyfodol yn cael ei baratoi ac mae perfformiad yr etholiad yma wedi tanlinellu gwerth gweithredu yn y modd yma.

**Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.**

Yn ystod 2021 -2022 drwy fuddsoddiad mewn staff a rhaglen gyfathrebu uniongyrchol llwyddwyd i gael gofrestru 70% o etholwyr 16- 18 ar gyfer etholiadau Mis Mai. Roedd hyn wedi cynnwys gwaith gyda Ysgolion Colegau a'r Gwasanaeth Ieuenctid i hyrwyddo cofrestru ynghyd a ymgyrch gohebu uniongyrchol. Yn ogystal a hyn llwyddwyd i gael dealltwriaeth a gwybodaeth am yr hyn oedd yn llwyddo a'r dulliau o ymgysylltu ynghyd a chreu cysylltiadau mewn sefydliadau y gellir eu datblygu a defnyddio i'r dyfodol.

Mae'n anodd cael data cymharol ar gyfer hyn am y cyfnod hyd ddiwedd Ebrill 2022. Rydym yn broses of greu swydd barhaol fydd yn ymysg y dyletswyddau yn parhau a'r gwaith hyrwyddo cofrestru yn benodol o amgylch y grŵp yma o etholwyr.

**CRWNER**

**Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal a sefydlu yr ardal ar sail gynaliadwy.**

Mae'r trefniadau ar gyfer penodi Crwner parhaol wedi cychwyn. Cymeradwywyd y trefniadau gan y Cabinet cyn yr etholiad. Disgwylir cadarnhad y Weinyddiaeth Cyfiawnder o'r ddogfennaeth ac mae amserlen recriwtio mewn lle. Disgwylir trafodaeth ynglŷn a'r gofynion cefnogaeth yn sgil penodiad parhaol.

**PERFFORMIAD**

**GWASANETH CYFREITHIOL**

Cesglir barn defnyddwyr y gwasanaeth cyfreithiol am y gwasanaeth. Y targed cyfredol y canran holiaduron barn a sydd yn dagan 10/10 am y gwasanaeth – Hyd yn hyn mae 100% o holiaduron a ddychwelwyd yn 10/10. Fodd bynnag mae nifer yr holiaduron sydd yn cael eu dychwelyd yn isel iawn ( 4) . Yn dilyn hyn rydym wedi cynnal adolygiad llawn o'r drefn. Mae'r ystadegau yn bwysig i ni nid yn unig o ran sgôr ond cael barn a darlun cyflawn am y gwasanaeth a dderbynnir. Drwy'r drefn newydd byddem yn cyflwyno holiaduron ond yn cymryd camau rhagweithiol i geisio barn gyflawn ar draw yr Adrannau sydd yn erbyn ein gwasanaeth.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**SYLWADAU - SWYDDOG MONITRO**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**SYLWADAU – PENNAETH CYLLID**
Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.